
Variationen: Almaeneg uwch L313

Patrwm cyflwyno Rhwng mis Hydref a mis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Variationen: Almaeneg uwch yw'r ail fodiwl yng nghwrs Diploma'r Brifysgol mewn Almaeneg. Mae'n ehangu'r sgiliau iaith a ddatblygwyd yn L203 *Cymhelliad: Almaeneg canolradd uwch* ac yn gwella gwybodaeth myfyrwyr am faterion diwylliannol. Drwy weithio gyda deunydd clyweledol, argraffedig ac ar y we o wledydd lle siaredir Almaeneg, bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, yn gwella eu gafael ar ramadeg a'u geirfa, ac yn datblygu'r sgiliau allweddol (gan gynnwys sgiliau academaidd) sydd eu hangen ar gyfer astudio ar lefel uwch. Mae'r modiwl hwn yn arwain at gymhwyster ar lefel sy'n gymaradwy â C1, fel y'i diffinnir gan Gyngor Ewrop.

Byddwch yn addysgu'r modiwl hwn drwy dulliau cyfunol, gan gynnwys cynadleddau cydamseredig, tiwtorialau wyneb yn wyneb a fforymau ar-lein. Bydd mwyafrif y tiwtorialau y byddwch yn eu cynnal yn rhai ar-lein, gan ddefnyddio Elluminate (sef system cynadleda clyweledol). Fel arfer bydd rhywfaint o diwtora wyneb yn wyneb (neu fel arall dros y ffôn) gan ddibynnu ar y lleoliad daearyddol. Mae'r modiwl hefyd yn defnyddio Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol. Mae'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn cynnwys deunyddiau'r modiwl (heblaw am lyfr gwaith a darlennydd) a gweithgareddau addysgeg, yn ogystal â dolenni i Elluminate ac adnoddau rhyngweithiol eraill megis wikis, blogiau a fforymau. Bydd disgwyl i chi gefnogi a thiwora myfyrwyr ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn rheolaidd drwy fforwm grŵp tiwtor ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech:

- cymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Almaeneg a gradd mewn astudiaethau iaith neu bwnc priodol arall
- profiad helaeth o addysgu iaith Almaeneg ac agweddau ar astudiaethau Almaeneg, yn ddelfrydol i oedolion
- ymrwymiad i addysgu iaith gyfathrebol
- sensitifrydd i'r problemau penodol sy'n gysylltiedig ag addysgu iaith o bell
- dealltwriaeth eang o wledydd lle siaredir Almaeneg, eu cymdeithasau a'u diwylliannau
- parodrwydd i feithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol y myfyrwyr
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu iaith.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cymhwyster addysgu priodol
- profiad o addysgu ar lefel drydyddol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Byddai profiad o ddefnyddio dulliau electronig o ddysgu a chymorth o bell yn ddefnyddiol, ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
- Caiff y tiwtorialau eu cynnal gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Disgwylir i chi fod ar gael i ateb galwadau ffôn neu negeseuon e-bost rhwng tiwtorialau er mwyn helpu'r myfyrwyr gydag unrhyw anawsterau.
- Byddwch hefyd yn cymedroli eich fforwm grŵp tiwtor ar-lein eich hun; caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig.

- Bydd angen i chi allu cael mynediad rheolaidd at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylbau a bennir ar y wefan cyfrifiadura bersonol ar gyfer L313.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	5
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl ychwanegol amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.